AR Y CLEDRAU

Y Rheilffordd, Stêm a Chyflymder

1 DECHRAU

Yn ôl yn y dechrau, erbyn diwedd Chwefror 1804, fel rhan o fet rhwng dau feistr haearn ym Merthyr Tudful, perffeithiodd Richard Trevithick, peiriannydd o Gernyw ei locomotif stêm i deithio heb gymorth ar blân llorwedd. Mewn geiriau eraill, roedd oes y rheilffordd wedi dechrau. Roedd wedi cynllunio'r locomotif rheilffordd stêm cyntaf.

Dilynwch ein llwybr sydd tua 1¾ milltir o hyd a chanfyddwch rôl Merthyr Tudful yn yr hyn a fyddai'n tyfu i fod yn un o ddatblygiadau mwyaf allweddol y Chwyldro Diwydiannol; Oes Aur Stêm.

Cofeb Trevithick

4

Ffynnon Goffa Robert a Lucy Thomas

2

Woodfired (yr hen New Inn) a'r Station Café

5

Taith Taf

3

Tesco (safle'r hen orsaf drennau)

6 GORFFEN

Twnnel Trevithick

CEWCH RAGOR O WYBODAETH AM BOB MAN DROS Y DUDALEN...

#MerthyrTownTrails
welovemerthyr.co.uk
@welovemerthyr

1 Cofeb Trevithick

Yn 1931, comisiynwyd y gofeb rheilffordd garreg a haearn ym Mhenydarren isaf yn ystod yr un cyfnod ag y cwblhawyd y gofeb rhyfel gyfagos. Gorffennwyd y gofeb yn 1933 a chafodd ei hagor yn 1934. Mae'n darlunio taith gyntaf, 21 Chwefror 1804 o Weithfeydd Penydarren, lle y cyflogwyd Trevithick gan y perchennog, Samuel Homfray. Aeth y daith i gyfeiriad y de am ddeg milltir tuag at Navigation, a adnabyddir heddiw fel Abercynon.

Tybiodd y meistr haearn, William Crawshay na fyddai modd gwneud hyn a threfnodd fet a oedd gwerth cannoedd o ginis. Roedd trydydd meistr haearn, sef Richard Hill o Weithfeydd Plymouth yn ddyfarnwr ar y bet. Gan na chwblhawyd y daith yn ôl – nid oedd modd i'r cledrau brau wrthsefyll pwysau'r locomotif a'i deithwyr a chwympod sach oddi arno, ni chafodd y bet erioed ei setlo!

O amgylch y gornel mae'r llwybr a elwir yn Dramffordd hyd heddiw ac mae pont sy'n croesi Nant Morlais – y bont rheilffordd gyntaf yn y byd! Yn anffodus, ni ellir gweld fawr o'r bont gan fod coed yn ei gorchuddio.

Gellir dilyn y llwybr o'r fan hon i gyfeiriad y de ar Lwybr Trevithick. Mae'r llwybr hwn, fodd bynnag yn argymell mynd i lawr y Stryd Fawr, trwy ganol y dref er mwyn gweld nifer fawr o nodweddion hanesyddol o orffennol cyfoethog Merthyr Tudful fel sy'n cael eu hamlinellu mewn nifer o lwybrau thematig eraill.

2 Woodfired (yr hen New Inn) a'r Station Cafe

Y tu allan i'r hyn a oedd ar un adeg yn brif fyneddfa crand i orsaf reilffordd y dref mae'r Station Café sydd wedi cael ei berchen a'i redeg gan genedlaethau o'r teulu Eidalaidd, Viazzani.

Gyferbyn, mae bloc cadarn yr hyn a arferai gael ei adnabod fel y New Inn. Mae llawer wedi newid yn ystod y ddeng mlynedd ar hugain ddiwethaf a'r adeilad oedd gwesty'r orsaf a gynigai lety ar gyfer y rheini a ddeuai i'r dref. Wedi i'r New Inn gau, dyma oedd safle Berni Inn cyntaf y dref cyn i dai bwyta byrgyr ac yn awr, dŷ bwyta lleol gwych, Woodfired agor yno.

Ewch i lawr y Stryd Fawr ac i'r chwith trwy Faes y Bannau sy'n ganolfan siopa dan do, brysur a stopiwch wrth i chi adael yn y pen pellaf.

3 Tesco (safle'r hen orsaf drennau)

Arferai safle presennol archfarchnad a maes parcio Tesco fod yn lleoliad i Orsaf Reilffordd Cwm Nedd. Agorwyd yr orsaf yn 1853 a chafodd ei chynllunio gan Isambard Kingdom Brunel. Ef oedd cynllunydd ac arloeswr mwyaf amlwg y 19eg ganrif ac yma roedd terminws ail brif reilffordd y dref. Roedd yn darparu llwybrau cyswllt i'r gorllewin, dwyrain a'r gogledd gan sicrhau fod Merthyr Tudful, ar ddiwedd y ganrif yn brif ganolfan reilffordd.

Mae gan drigolion lleol atgofion melys o grandrwydd a phrysurdeb yr orsaf a oedd yn cynnwys nifer o blatfformau, cyrtiau cadw nwyddau, ystafell barseli, swyddfeydd, ystafelloedd aros a chiosg lluniaeth ysgafn.



Gallwch weld murlun ar ochr adeilad Tesco sy'n darlunio'r orsaf. Nid oes dyddiad nac enw ar y murlun ond mae'n dod o'r Illustrated London News a oedd yn gylchgrawn ffasiynol ynghanol y 1870au a oedd yn cynnwys safbwyntiau Llundeinig o gymoedd De Cymru. Mae'r llun hwn yn dangos glöwr a'i offer ac sydd yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau. Mae'n ymadael, o bosib am byth er mwyn dod o hyd i waith fel crefftwr profiadol.

4 Ffynnon Goffa Robert a Lucy Thomas

Cynghorir eich bod yn cadw draw oddi wrth y ffyrdd prysur. O Tesco, dilynwch y llwybr troed dan do sy'n arwain at yr orsaf reilffordd bresennol a chadwch at ochr dde'r platfform. Yn y pen pellaf, dilynwch y grisiau sy'n disgyn i Faes Parcio Stryd Gillar gan fynd allan ar y gornel sydd gyferbyn.

O'r fan hon, gallwch weld Llys Janice Rowlands a Ffynnon Goffa addurnedig Robert a Lucy Thomas. Edrychwch ar y lunettes cain sy'n darlunio sawl agwedd o hanes Merthyr Tudful gan gynnwys locomotif stêm a delweddau o'i hanes glofaol.

Ar gylchfan Caedraw, trowch i'r dde ac wrth Fflatiau Caedraw (4a), defnyddiwch y groesfan i gerddwyr ac yna'r bont droed cyn i chi droi i'r chwith i Lwybr Taf. Mae'r llwybr yn mynd â chi drwy groesfan danddaearol i gerddwyr sydd eto wedi ei haddurno â darluniau mosaic sy'n ymwneud â'r rheilffordd. Dilynwch ochr Pentref Hamdden Merthyr Tudful gan gadw Afon Taf ar eich llaw chwith (4b).

5 Taith Taf

I'r chwith (lle mae Aldi a Castle Bingo yn awr) mae safle gorsaf reilffordd gyntaf Merthyr Tudful a therminws Rheilffordd Cwm Taf a gwblhawyd, unwaith yn rhagor gan Brunel yn 1841. Dyma leoliad y rheilffordd gyntaf a oedd yn cysylltu Merthyr Tudful ar ben uchaf Cwm Taf â Chaerdydd a'r porthladd. Cafodd ei sefydlu gan feistri haearn y dref ac yn fwyaf amlwg, Syr Josiah John Guest o Weithfeydd Dowlais er mwyn cludo cyflenwadau mawr o fariau haearn i'r porthladd a'u hallforio i farchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol.

Roedd nifer o linellau bychain yn cysylltu â'r prif derminws hwn ac yn cysylltu y cwm hwn er enghraifft ag Aberdâr trwy dwnnel. Dyma hefyd oedd pwynt mynediad y llinell ar gyfer Aberhonddu a Merthyr a oedd yn y 1860 au yn cysylltu'r dref ag Aberhonddu. Heddiw, mae llinell reilffordd Rheilffordd Fynyddig Aberhonddu sy'n gadael Pant yn rhedeg yn gyfochrog â chwe milltir gyntaf y trac gwreiddiol.

Wrth i chi barhau ar hyd Taith Taf i gyfeiriad y de, nodwch y bont sydd â thair arch sy'n cludo llinellau'r rheilffordd (yn bennaf Cwm Nedd) i Aberdâr ac i Gefn Coed, Pontsarn ac yna i Aberhonddu.

Ar gyffordd fawr gyntaf y llwybr, ewch i'r chwith a dilynwch arwyddion glas Llwybr Trevithick. Mae'r llwybr yn mynd â chi dros Bont Brandy lle y gallwch fwynhau golygfeydd gwych ar hyd afon Taf i'r gogledd ac i'r de. Parhewch i ddilyn yr arwyddion glas, ewch ar draws y gylchfan nesaf a throwch i'r chwith ar y llwybr cul i Dwnnel Trevithick.

6 Twnnel Trevithick

Yma, mae maes parcio am ddim, byrddau gwybodaeth a gweithiau celf gan blant ysgol sy'n adrodd stori'r twnnel rheilffordd gyntaf yn y byd.

Syniad Trevithick oedd adeiladu'r twnnel gan fynd â thrac y rheilffordd o dan odynau calch Gweithfeydd Plymouth. Roedd uchder yn broblem felly cynlluniodd Trevithick simnai a allai gael ei godi a'i ostwng.

Wrth ymyl, gellir dilyn Llwybr Trevithick sy'n rhedeg yn gyfochrog ac sydd, yn y pendraw yn ymuno â Taith Taf. Mae'r ddau lwybr yn mynd â beicwyr a cherddwyr trwy rai o olygfeydd mwyaf godidog De Cymru.

Rai milltiroedd i'r de, ger Mynwent y Crynwyr mae'r draphont anhygoel y cynlluniodd Brunel er mwyn mynd â llinell wreiddiol y TVR i fyny ar raddiant dros Afon Taf.

Ar un adeg, roedd Merthyr Tudful yn dref rheilffordd brysur a phwysig iawn. Cafodd miloedd eu cyflogi ar y rheilffordd. Roedd modd prynu tocynnau a chludo nwyddau o Ferthyr Tudful i bron iawn unrhyw le. Byddai bariau haearn o ansawdd aruchel yn cael eu hallforio ledled y byd er mwyn adeiladu rheilffyrdd Gogledd America, Rwsia, nifer o wledydd Ewropeaidd a hyd yn oed y Dwyrain Canol.

Er mwyn dychwelyd i'r dref, gallwch naill ai ddilyn eich llwybr ar hyd Taith Taf neu ddychwelyd ar hyd Stryd Plymouth, nad sydd mor ddeniadol ond sydd yn cymryd rhyw 20 munud.



Diolch i'r hanesydd lleol Huw Williams a luniodd y daith hon ac i wefan alangeorge.co.uk sy'n cadw llawer o ffotograffau o'r hen Ferthyr Tudful.
Mae rhagor o wybodaeth am Richard Trevithick a rôl y rheilffyrdd yng ngorffennol Merthyr Tudful ar gael oddi wrth Wasanaeth Llyfrgelloedd Merthyr.